

Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd
Cynllun 'Cymorth
Cartref'

CYN GEIRIAU
Sut i helpu'r plentyn nad ydi'n
siarad efo



Bydd plant yn dysgu i siarad trwy gopio ac arbrofi â seiniau a synau.

Byddan nhw wrth eu boddau'n gwneud yr un pethau drosodd a throsodd ac mae hyn yn rhoi digon o gyfle iddyn nhw eich gwyllo a dysgu gennych chi.

Wrth chwarae â'ch plentyn neu hyd yn oed wrth wneud gweithgareddau bob dydd, cofiwch y syniadau syml yma.

Ffyrdd o annog eich plentyn i wneud seiniau

Gwnewch seiniau sy'n cyfateb â'i hoff deganau neu gemau. E.e. 'Bw!' – pi-po!/neidio allan o guddfan

- 'Brrm brmm' – rasio ceir tegan
- 'Tshw tshw' – chwarae â threnau
- 'Shh shh' – anwesu doli sy'n cysgu
- 'Pop' - chwythu a phopian swigod



Gwnewch seiniau anifail pan fyddwch chi'n gweld anifeiliaid o gwmpas, ar y teledu, mewn llyfr neu wrth chwarae â thegan.E.e. 'mw, mw' – buwch

- 'me-me' – dafad
- 'wyff-wyff' – ci
- 'cwad-cwad' – hwyaden
- 'rhuo' - llew



Mae plant yn ymateb yn dda i newidiadau o ran cywair a thonyddiaeth felly gwneud seiniau'n frwdfrydig fel eu bod yn swnio fel hwy! – felly mae'n fwy tebygol y bydd eich plentyn yn ceisio eich copïo.

GAIR I GALL - Rhwch ddewisiadau: os bydd eich plentyn yn pwyntio ar rywbeth y mae ei eisiau arno/arni, cogiwch nad ydych chi'n gwybod a dywedwch e.e. "wyt ti eisiau bisgeden neu sudd?" – cynigiwch gwpl o weithiau cyn rhoi'r hyn mae'n pwyntio ato iddo/iddi.

Anogwch ef/hi i gopïo, canmolwch ef/hi a modelwch eiriau

Canwch ganeuon a rhigymanu actol : canwch ganeuon a gwnewch y gweithredoedd drosodd a throsodd – helpwch eich plentyn i ymuno os bydd angen. Ymhlith y ffefrynnau mae:

- Mynd drot drot
- Dacw mam yn dŵad
- Gee Geffyl Bach
- Bwrw glaw yn sobor iawn

Modelwch eiriau cyfarwydd : bydd dweud yr un geiriau bob tro y byddwch chi'n chwarae gêm yn helpu eich plentyn i ddysgu geiriau i'w dweud. E.e. dweud "ar dy farciau ... barod ... CER" bob tro y byddwch chi'n curo twr i lawr neu'r taflu pêl, neu "mwy?" bob tro y byddwch chi'n mynd i chwythu swigod.

Cofiwch - Gadw
gweithgareddau'n fyr a gwnewch
chwarae a gwneud seiniau yn
hwyl – i chi ac i'ch plentyn!



os ydych yn poeni am leferydd eich plentyn neu am gael mwy o wybodaeth, ffoniwch eich Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith lleol

| | |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-Bont ar Ogwr |
| Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a De Powys |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Wrecsam a Sir y Fflint Conwy a Sir Ddinbych Gogledd-orllewin Cymru | Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam, yn ogystal â rhannau o'r canolbarth, Swydd Gaer a Sir Amwythig |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Bwrdd Iechyd Cwm Taf | Preswylwyr Caerdydd a'r Fro Cwm Cynon, Merthyr Tudful, Cymoedd y Rhondda ac ardal Taf Elái |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda | Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Powys | Aberhonddu, Y Drenewydd, Sir Fynwy a Threfyclo, Sir Frycheiniog a gweddill Maesyfed |

Afasic Cymru yw'r unig elusen yng Nghymru sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN), a rhoddir pwyslais arbennig ar bobl ifanc â Nam Penodol ar Iaith (SLI) www.afasiccymru.org.uk.

Mae Afasic Cymru'n cydnabod Amy Hewer, Therapydd iaith a Lleferydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Dechrau'n Deg Wrecsam am weithio mewn partneriaeth i gynhyrchu'r wybodaeth hon.